COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Hydref 26ain, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, R. Phillip Roberts

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley, Wyn Griffiths, O. Hefin Roberts

ABSENNOL

Erfyl W. Roberts a William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant yn yr eitemau isod:

- John Gwilym Jones a Catherine Ll. Morris yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/0951/39/RC – Diwygio Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy neu gynnig cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy yn Awel Neigwl, Sarn Bach, gan fod JGJ yn berchennog tŷ â Chytundeb 106 a CLlM yn rhedeg busnes tai gwyliau a bwthyn 106 ar fferm
- John Gwilym Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris a R. Phillip Roberts yn 2. Ceisiadau Cynllunio C16/1252/39/RC – Diwygio Cytundeb 106 er mwyn dileu Cymalau 1d ac 1e sydd yn clymu tir y fferm i'r uned wyliau ym Mryn Beudy, Castellmarch, Aber-soch, oherwydd bod ganddynt Gytundeb 106 ar eu heiddo eu hunain.

2. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0951/39/RC Diwygio Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy neu gynnig cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy – Awel Neigwl, Sarn Bach **– Yn dilyn derbyn gwybodaeth mai er enghraifft yr atodwyd y ddogfennaeth 'anghywir' trafodwyd y cais eto a phenderfynwyd mai gwrthwynebu, oherwydd gosodir amodau/cytundebau am reswm a byddai'n dechrau cynsail [Datgan Diddordeb – JGJ a CLLM]**

C16/1104/39/LL	Estyniad unllawr cefn, ynghyd ag addasiadau i'r adeilad yn cynnwys ffenestri newydd a chladio'r edrychiad blaen a rhan o'r ochr – East Meets West, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/1252/39/RC	Diwygio Cytundeb 106 er mwyn dileu Cymalau 1d ac 1e sydd yn clymu tir y fferm i'r uned wyliau – Bryn Beudy, Castellmarch, Aber-soch **– Gan ei fod yn fater cyfreithiol, penderfynwyd na ellid anfon sylwadau [Datgan Diddordeb – JGJ, DLL, CLLM a RPR]**
C16/1258/39/MG	Cais i gymeradwyo manylion a gadwyd yn ôl ar gyfer gosod siale gwyliau, darpariaeth parcio, cyfnewid tanc septig am system trin preifat yn dilyn caniatâd amlinellol C13/1218/39/AM – 21 Ystád Braich, Mynytho **– Cefnogir**
C16/1312/39/LL	Iard storio cychod – Sŵn y Môr, Bwlchtocyn – **Cefnogir**

3. **CADARNHAU CYFRIFON 2015 – 2016**

Derbyniwyd llythyr ac adroddiad ar faterion a godwyd o Ffurflen Flynyddol 2015 – 2016 ac, o ganlyniad, bu'n rhaid newid y datganiadau cyfrifo i gynnwys cyfrif y fynwent ac, yna, ei hail-gymeradwyo a'i hardystio. Tynnwyd sylw at y materion a ganlyn:

a) *nis ardystiwyd y cyfrifon, yn unol â Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, sef cyn y dyddiad cau statudol o Fehefin 30ain* – methwyd â gwneud oherwydd na ellid cysoni'r cyfrifon ac ni dderbyniwyd y ffurflen mewn pryd oddi wrth yr Archwiliwr Mewnol i fedru galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w cadarnhau; dywedodd y dyddiai hi ar Fai 28ain, sef y dyddiadau a nododd yn ei lythyr i gwblhau'r archwiliad mewnol yn ôl ei lythyr

b) *er y gosodwyd praesept erbyn y dyddiad dyledus, ni pharatowyd cyllideb ddigonol i gefnogi a darparu tystiolaeth ar gyfer y cais amdano – rhaid sicrhau y paratoir un i gefnogi y broses o wneud penderfyniadau a helpu'r rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol, ynghyd â'i hadolygu'n rheolaidd ac y cofnodir adolygiad y gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol*

c) *na chynhwysai llythyr penodi'r Archwilydd Mewnol fanylion llawn yr holl wybodaeth, e.e. dylai sefydlu rhychwant yr aseiniad er mwyn sicrhau cytundeb y ddwy ochr* – anfonwyd llythyr at yr Archwilydd Mewnol yn cydnabod derbyn ei wasanaeth ond, mae'n amlwg nad yw'n unol â'r gofynion

ch) *nid oes gan y Cyngor gofrestr asedau ac, felly, nid yw'n gallu cadarnhau cost prynu neu brocsi, os nad yw'r pris yn hysbys, o'i holl asedau* – erioed wedi gweld un, angen llunio un cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol a rhaid iddi gael ei dilysu gan yr archwilydd mewnol yn ystod archwiliad y flwyddyn ariannol nesaf.

Mynegwyd anfodlonrwydd â'r holl oedi a chyflwyno gwybodaeth ychwanegol na fodlonodd BDO yn y diwedd, ynghyd â'r angen i gynnal ymholiadau pellach ar y ffôn oddi wrth y swyddogion yn y Saesneg – nid yw'n gwneud synnwyr mai cwmni o Dde Lloegr yw Archwilwyr Allanol cynghorau cymuned a thref Cymru.

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Swyddog Datblygu Gogledd Cymru Un Llais Cymru yn gofyn am unrhyw wybodaeth am y problemau a gododd yn ystod cyfnod yr archwilio allanol a gynhaliwyd gan BDO. Fe'u trafodir gan Lyn Cadwallader a Paul Egan, swyddogion ULlC, â chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru ddechrau mis Tachwedd yn dilyn derbyn nifer fawr o gwynion amdanynt. Awgrymir anfon yr wybodaeth at Swyddfa Archwilio Cymru hefyd.

4. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 9fed, 2016 am saith o'r gloch.